# Gwersi a ddysgwyd: Ymatebion i COVID-19 gan y Sector Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru rhwng 2020 a 2023

Cathryn Knight, Prifysgol Bryste
Jacky Tyrie, Prifysgol Abertawe
Ioanna Bakopoulou, Prifysgol Bryste
Margarida Borras Batalla, Prifysgol Metropolitan Manceinion

CRYNODEB

Pwrpas yr astudiaeth hon oedd deall sut mae ymarferwyr addysg a gofal plentyndod cynnar yng Nghymru yn gweld effaith y pandemig COVID-19 ar eu sector; sut mae'r canfyddiadau hyn wedi newid dros amser; a'r hyn y gallwn ei ddysgu o'r profiadau hyn i gefnogi'r broses o adfer o argyfwng yn y dyfodol, ac ymarfer effeithiol ac ymatebol i'r cyd-destun mewn lleoliadau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC). Defnyddiwyd proses ymchwil tri cham, yn cynnwys dau arolwg ar-lein (Tachwedd–Rhagfyr 2020, *n*=379; Chwefror–Mawrth 2023 *n*=352) a grwpiau ffocws ar-lein (Mai 2023, *n=12*). Yn gyffredinol, roedd ymarferwyr yn 2023 o'r farn bod effaith y pandemig yn waeth na'r rhai a gwblhaodd yr arolwg yn ystod anterth y pandemig yn 2020. Esboniwyd hyn gan yr effaith negyddol ar wasanaethau cymorth cydlynol yn dilyn y pandemig. Dywedodd traean a mwy o'r cyfranogwyr yn y ddau arolwg fod eu lleoliad wedi cael trafferth aros yn hyfyw, tra bod cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn sôn am 'sector a anghofiwyd' ac yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau. Trafododd ymarferwyr newidiadau a oedd wedi parhau a addaswyd o ganlyniad i COVID-19, a oedd yn cael eu hystyried fel cyfleoedd a heriau yn deillio o brofiad y pandemig. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag addasu'r lleoliad i'r lefel uwch o angen yr oedd plant yn y lleoliad yn ei ddangos. Mae'r papur yn cloi drwy ddarparu argymhellion

*https://doi.org/10.16922/wje.27.2.4cym*

ar gyfer polisi ac ymarfer ac yn pwysleisio'r angen i ddefnyddio pandemig COVID-19 fel cyfle dysgu ar gyfer myfyrio ac arloesi ym meysydd polisi ac ymarfer ECEC yng Nghymru ac yn fyd-eang.

**Geiriau allweddol:** COVID-19, y blynyddoedd cynnar, addysg a gofal plentyndod cynnar, arferion gorau, Cymru

## Cyflwyniad

Ar 5 Mai 2023 datganodd Sefydliad Iechyd y Byd nad oedd COVID-19 bellach yn 'argyfwng iechyd byd-eang', dair blynedd, tri mis a chwe diwrnod ar ôl iddo gael ei ddatgan felly ar 30 Ionawr 2020 (WHO, 2023). Eto, er bod yr argyfwng byd-eang wedi dod i ben, mae cydnabyddiaeth eang o'r effaith tymor hwy y mae'r pandemig wedi ei chael ar systemau addysg yn fyd-eang (OECD, 2020; Hoffman a Secord, 2021; Wernerand a Woessmann, 2023; Poulain et al., 2021). Mae'r effaith hon wedi ei theimlo'n enbyd yn sector y blynyddoedd cynnar (Pascal et al., 2020; Hobbs a Bernard, 2021).

Yn y DU, er bod rhai lleoliadau gofal plant ar gyfer y rhai dan bump oed yn cael eu cynnal gan y Llywodraeth (lleoliadau a gynhelir), mae yna sector preifat, gwirfoddol ac annibynnol (PVI) mawr a gwnaeth y cau gorfodol, yn ystod COVID-19, godi cwestiynau am hyfywedd y sector (Hobbs a Bernard, 2021) – heriau a waethygwyd gan y pandemig ond sydd hefyd yn adlewyrchu problemau hirsefydlog gyda strwythurau cyllido cymhleth, a thameidiog yn aml, mewn addysg y blynyddoedd cynnar (Hobbs a Bernard, 2021, Tyrie et al., 2021; Araújo et al., 2021). Ar ben hynny, mae effaith y pandemig ar ddatblygiad plant wedi'i gofnodi'n helaeth (Penna et al., 2023; Sato et al., 2023; Barnett a Jung, 2021; Tyrie, Knight a Borras, 2021) yn enwedig y rhai mewn grwpiau difreintiedig (Gonzalez a Bonal, 2021; Mays et al., 2022, Hobbs a Bernard, 2022). Yn ddiddorol, fe wnaeth James et al (2021) a Hampton a McAuley (2023) ganfod bod effaith pandemig COVID-19 ar lesiant yn fwy cadarnhaol (na negyddol) i blant iau.

Yng Nghymru, lansiodd Llywodraeth Cymru y rhaglen ariannu 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' yn 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19. O ganlyniad, cafodd 2,452 o staff cyfwerth ag amser llawn eu recriwtio i'r sector. Er bod gwerthusiad

o'r rhaglen hon wedi nodi manteision y staff ychwanegol, codwyd pryderon am anghenion hyfforddi staff newydd, ac am sut i gefnogi'r sector yn y tymor hwy pan ddaw'r cynllun i ben (Andrews et al., 2023). Mae'r adroddiad yn nodi y bydd y profiad o darfu ar addysg yn parhau a bydd plant a'r gweithlu yn wynebu tarfu parhaus gan COVID-19 (Andrews et al., 2023, t. 8). Nod y papur hwn yw deall sut mae ymarferwyr ECEC yng Nghymru yn gweld effaith y pandemig ar eu sector; sut mae'r canfyddiadau hyn wedi newid dros amser; ac, yn bwysicach, yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r profiadau hyn i gefnogi adferiad COVID-19, a llywio ymarfer yn y dyfodol mewn lleoliadau ECEC.

## Cefndir

Mae'r mwyafrif o blant bach yn y DU bellach yn cael profiad o addysg a gofal plentyndod cynnar ffurfiol cyn dechrau'r ysgol gynradd (GOV.uk, 2023; llyw.cymru, 2018). Mae'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd ECEC ar gyfer datblygiad plant yn ddiamheuol (Sylva et al., 2004). Ar ei orau, gall darpariaeth y blynyddoedd cynnar fod yn drawsnewidiol i blant a'u teuluoedd (Hunkin, 2019). Mae'n rhoi cyfleoedd i weithwyr proffesiynol medrus ym maes y blynyddoedd cynnar feithrin datblygiad addysgol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol plant bach.

### *Effaith COVID-19 ar Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC)*

Mae pandemig COVID-19 a'r effaith ar sector y blynyddoedd cynnar wedi newid yn sylfaenol y cyd-destun lle mae cenhedlaeth o blant ifanc wedi tyfu a datblygu. Effeithiodd y pandemig ar y sector ECEC mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cau meithrinfeydd dros dro ac yn barhaol, a heriau o ran y gweithlu (Senedd y DU, 2021), er, dylid nodi bod heriau blaenorol yn bodoli yn y sector (Hobbs a Bernard, 2021).

Yng Nghymru, ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y byddai ysgolion a lleoliadau ECEC yn cau ar gyfer darpariaeth statudol gyda lleiafrif o leoliadau yn parhau i fod ar agor drwy sefydlu 'systemau hyb' ar gyfer plant i rieni a oedd yn weithwyr allweddol neu ar gyfer plant a oedd yn cael eu dosbarthu fel plant agored i niwed. Fe wnaeth lleoliadau ailagor yn raddol ym mis Mehefin-Gorffennaf 2020. Dechreuodd blwyddyn academaidd 2020/21 (Medi 2020) gyda

phlant mewn ysgolion a lleoliadau ECEC er bod systemau 'swigod' ar waith a oedd yn golygu bod unigolion/dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn o blant yn cael eu hynysu pe bai achos positif o COVID-19 yn cael ei ganfod. Cafwyd ail gyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol rhwng Ionawr a Mawrth 2021 gydag ysgolion yn cau unwaith eto, er bod rhywfaint o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar PVI yn parhau i fod ar agor ynghyd ag ysgolion hyb. Roedd hyn yn golygu bod ymarferwyr blynyddoedd cynnar wedi cael profiadau amrywiol o'r pandemig - tra bod rhai wedi gweithio gydol y cyfnod, cafodd eraill eu rhoi ar ffyrlo am gyfnodau maith. Ar draws y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae ymchwil wedi adrodd diffyg cefnogaeth i ymarferwyr y tu allan i'r gwasanaeth iechyd gwladol (GIG) yn ystod y pandemig (Chesire-Allen a Calder, 2022; Vicary et al., 2020).

### *Effaith COVID-19 ar ddatblygiad plant*

Mae tystiolaeth ledled y byd bod llawer o feysydd datblygiad plant wedi cael eu heffeithio o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys eu lleferydd ac iaith (Chadd et al., 2021), datblygiad gwybyddol (Deoni et al., 2021), datblygiad cymdeithasol (Najamuddin et al., 2022) a datblygiad corfforol (Stanford, 2021), yn ogystal â'u hiechyd meddwl a'u llesiant (Hawrilenko et al., 2021). Mae tystiolaeth o'r Ages and Stages Questionnaire a gwblheir pan fydd plant yn ddyflwydd ac yn ddyflwydd a hanner yn Lloegr, yn dangos bod cyfran lai o blant yn cyflawni lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad ar draws pob un o'r pum maes mesur (Office for Health Improvement and Disparities, 2021).

Mae ymchwil o gyd-destun Lloegr yn awgrymu bod y pandemig wedi effeithio ar y broses o bontio i'r ysgol gyda thystiolaeth glir gan athrawon sy'n dweud mai dim ond hanner eu myfyrwyr a gyrhaeddodd i ddechrau'r dosbarth derbyn (pedair i bump oed yn y DU) yn 2021 oedd yn 'barod i'r ysgol' (Bakopoulou, 2022; YouGov a Kindred, 2022). Yn yr un modd, adroddodd Tracey et al. (2022) mewn astudiaeth ar raddfa fawr o blant (n=960) rhwng tair a phedair oed, ar ddiwedd y flwyddyn dderbyn, fod cyfran y plant a gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig o ddatblygiad ym mhob maes wedi gostwng o 72 y cant ar gyfer carfan 2019 i 59 y cant yn unig yn 2021. Roedd y gwahaniaeth hwn yn cyfateb i, ar gyfartaledd, tri yn rhagor o blant ym mhob ystafell ddosbarth heb gyrraedd y lefelau disgwyliedig erbyn diwedd y flwyddyn ysgol (Tracey et al., 2022).

Hefyd, yng nghyd-destun Lloegr, canfu Platt (2021) fod COVID-19 wedi cael effaith arbennig o niweidiol ar rai plant bach difreintiedig ac agored i niwed. Mae anghydraddoldeb wedi dyfnhau, gyda phlant bach mewn teuluoedd ethnig lleiafrifol ac mewn ardaloedd lle'r oedd tlodi eisoes yn gyffredin, yn cael eu heffeithio'n fwy (Platt, 2021). Mae ymchwil o'r DU ac Awstralia yn awgrymu bod y ffordd y mae plant yn dysgu ac yn datblygu wedi newid, gyda rhai mathau o ddysgu ar-lein bellach yn cael eu hystyried yn 'hanfodol', gan waethygu effaith y rhaniad digidol rhwng teuluoedd breintiedig a theuluoedd difreintiedig (Coleman, 2021; Seymour et al., 2020).

Canfu ymchwil flaenorol o gyfandiroedd America (Atiles et al., 2021) a'r DU (Christie et al., 2021) fod y pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldebau yn y system gyda theuluoedd a phlant agored i niwed neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fwy tebygol o syrthio rhwng y craciau - gydag angen brys wedi'i nodi i newid y ffordd y mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn addysg gynnar eu plentyn. Yng nghyd-destun Lloegr, mae Morton and Adams (2022) yn nodi, yn ystod y pandemig, bod llai o ryngweithiadau rhwng rhieni â gweithwyr proffesiynol allweddol y blynyddoedd cynnar, llai o wiriadau ymwelwyr iechyd, llai o atgyfeiriadau at ofal cymdeithasol plant, a bwlch cynyddol rhwng anghenion a oedd yn dwysáu a'r cymorth a oedd ar gael.

Er bod llawer llai o ymchwil ynglŷn ag effaith COIVD-19 yng Nghymru, nag yn Lloegr, mae'r sylfaen dystiolaeth yn ehangu (Thomas et al., 2023, Waters-Davies et al., 2022, Marchant et al., 2022), Eto, mae ffocws yr ymchwil sydd ar gael wedi canolbwyntio ar effeithiau tymor byr y pandemig yn hytrach na gwerthusiad o union natur yr effaith tymor hwy o safbwynt ymarferwyr. Canfu Tyrie, Knight a Borras (2021) fod ymarferwyr yn teimlo mai 'datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant' a gafodd ei effeithio'n fwyaf negyddol gan y pandemig a gwelwyd bod rhai grwpiau demograffig wedi'u heffeithio'n fwy negyddol nag eraill. Fe wnaeth Marchant et al. (2022) gynnal gwaith ymchwil gyda 353 o gyfranogwyr o 59 o ysgolion cynradd o fewn 15 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac adroddodd fod staff ysgolion cynradd yn teimlo bod addysgu yn anodd oherwydd cyfyngiadau COVID-19, yn enwedig i ddysgwyr iau a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cynhaliwyd arolwg ar raddfa fawr gan James et al. (2021) gyda 6,291 o ymatebwyr 8–25 oed o 81 o leoliadau addysg ledled Cymru a oedd yn archwilio llesiant yn ystod y pandemig yng Nghymru. Yn gyffredinol, awgrymodd yr astudiaeth po ieuengaf oedd y plant, y

lleiaf yr effeithiwyd ar eu llesiant gan y pandemig, gydag amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar eu llesiant hunan-adroddedig.

> Among primary school children, higher wellbeing was seen for those who played with lots of others (rather than alone), were of Asian ethnicity (OR 2.17, 95% CI: 1.26 to 4.3), had a safe play area (OR: 2.4, 95% CI: 1.67 to 2.56) and had more sleep. To support their wellbeing young people reported they would like to be able to play with their friends more. (James et al., 2021)

### *Ymateb y Sector ECEC*

Fe wnaeth y cyfyngiadau symud leihau'r cyfleoedd i rieni a staff y blynyddoedd cynnar geisio a rhoi cyngor. Eto, mae Hobbs a Bernard (2021) yn dadlau bod y sector ECEC yng nghyd-destun y DU wedi ymateb yn llawn dychymyg i heriau'r pandemig trwy ddefnyddio dulliau arloesol a'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi plant a'u teuluoedd. Roedd yna enghreifftiau rhyfeddol hefyd lle'r oedd gwasanaethau cymorth lleol wedi addasu'n gyflym i ddarparu cymorth digidol, mwy o gydweithredu, a gwell systemau atgyfeirio i rieni newydd (Reed, 2021). Yng Nghymru, soniodd ymarferwyr ECEC am strategaethau lleol a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddulliau cyfathrebu digidol, gyda lefelau amrywiol o lwyddiant (Plant yng Nghymru, 2022). Fodd bynnag, yng Nghymru (Tyrie et al., 2021) a ledled y DU (Ofsted, 2020; Hunnikin a Blackburn, 2020) mae ymchwil wedi dangos hefyd bod llawer o leoliadau ECEC wedi sôn am drafferthion gyda hyfywedd, a staffio yn ystod ac ar ôl y pandemig, a gellir dadlau bod hyn yn gwaethygu problemau parhaus o ran y gweithlu (Hobbs a Bernard, 2021). O ganlyniad, mae'n bwysig deall effaith y pandemig ar y sector, ac yn bwysicach, yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r ffordd y gwnaeth lleoliadau ymateb i'r pandemig a all lywio arferion ECEC wrth adfer o argyfwng yn y dyfodol.

## Cwestiwn Ymchwil

Felly, nod yr ymchwil hon oedd mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

1. Sut mae ymarferwyr ECEC yng Nghymru yn gweld effaith COVID-19 ar y plant a'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw, a sut mae hyn wedi newid dros amser?

2. Sut mae ymarferwyr ECEC yng Nghymru yn gweld effaith pandemig COVID-19 ar leoliadau a staff ECEC, a sut mae hyn wedi newid dros amser?
3. Beth mae ymarferwyr ECEC yn teimlo eu bod wedi'i ddysgu o'r pandemig COVID-19 a fydd yn llywio eu hymarfer yn y dyfodol

Yn gyffredinol, nod y prosiect yw myfyrio ar effaith pandemig COVID-19 ar y sector ECEC yng Nghymru, ac ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r profiad hwn i lunio polisi ac arferion ECEC yn y dyfodol.

## Dulliau

Er mwyn ateb ein cwestiynau ymchwil, gwnaethom ddefnyddio proses ymchwil tri cham, yn cynnwys dau arolwg ar-lein a weinyddwyd trwy Qualtrics (Tachwedd-Rhagfyr 2020 a Chwefror-Mawrth 2023) a grwpiau ffocws ar-lein (Mai 2023). Roedd y dyluniad ymchwil dulliau cymysg hydredol hwn yn golygu bod modd dadansoddi'r tueddiadau hydredol ystadegol yng nghanfyddiadau cyfranogwyr, tra bod y grwpiau ffocws yn darparu mewnwelediadau manwl er mwyn deall ymhellach brofiadau, canfyddiadau ac emosiynau'r cyfranogwyr. Gyda'i gilydd, mae'r dull tri cham hwn, sy'n cyfuno data meintiol ac ansoddol, a gasglwyd ar wahanol adegau, wedi caniatáu i ni archwilio sut mae'r sector wedi esblygu ac i nodi tueddiadau, newidiadau, cyfleoedd a heriau dros amser, pan oedd profiadau COVID-19 yn sylweddol wahanol ar draws y sector ECEC.

Y grŵp cyfranogwyr targed ar gyfer y tri cham oedd ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau ECEC (a gynhelir a PVI) yng Nghymru. Roedd gennym ddiddordeb penodol mewn ymarferwyr a fu'n gweithio gyda phlant rhwng sero ac wyth oed. Yn yr arolygon, cafodd y rhai nad oeddent yn bodloni'r meini prawf hyn eu heithrio o'r dadansoddiad post hoc. Dewiswyd cyfranogwyr ar gyfer y grwpiau ffocws yn seiliedig ar y meini prawf hyn. Ar ddiwedd yr ail arolwg, gwahoddwyd cyfranogwyr i wirfoddoli ar gyfer grwpiau ffocws dilynol trwy adael eu cyfeiriad e-bost. O'r rhai a fynegodd ddiddordeb, dewiswyd sampl bwrpasol er mwyn sicrhau amrywiaeth o ran math o leoliad (e.e., a gynhelir a PVI) ac o ran cwmpas daearyddol ledled Cymru.

Cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan y sefydliad a oedd yn cynnal yr arolwg i'r awdur cyntaf+ ar gyfer pob un o'r tri cham o gasglu data.

***Cam 1: Arolwg, Tachwedd–Rhagfyr 2020***

Roedd yr arolwg cychwynnol yn cynnwys pedair adran: roedd yr adran gyntaf yn gofyn i'r cyfranogwyr am eu gwybodaeth ddemograffig, gyda thair adran ddilynol yn gofyn am newidiadau y mae lleoliadau wedi'u gwneud mewn ymateb i ganllawiau'r llywodraeth ar COVID-19, effaith COVID-19 ar y plant yn y lleoliad, ac effaith COVID-19 ar y lleoliad a'i staff. Cafodd cymysgedd o gwestiynau penagored a chwestiynau caeëdig eu cynnwys ar gyfer pob pwnc. Roedd yr arolwg ar agor i gyfranogwyr am bum wythnos rhwng 12 Tachwedd 2020 a 19 Rhagfyr 2020. Ar yr adeg hon yng Nghymru, roedd lleoliadau ECEC wedi ailagor (ers mis Mehefin 2020) gyda chanllawiau'r llywodraeth ar waith i osgoi lledaeniad y feirws. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio trwy samplu cyfleus didebygolrwydd trwy e-bostio lleoliadau a hyrwyddo'r arolwg trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ar ôl hepgor y rhai nad oeddent yn bodloni'r gofynion demograffig ar gyfer y grŵp cyfranogwyr targed, cofnodwyd 379 o ymatebion. Mae Tabl 1 yn dangos y math o leoliad a rôl ymatebwyr yr arolwg cychwynnol.

***Cam 2: Arolwg, Ionawr–Mawrth 2023***

Roedd yr ail arolwg yn cynnwys tair adran yn dilyn strwythur tebyg i'r arolwg gwreiddiol. Cafodd yr adran ar ymateb i ganllawiau'r llywodraeth ei hepgor gan nad oedd bellach yn berthnasol i gyd-destun COVID-19 yn 2023. Cafodd cwestiynau allweddol o'r arolwg cychwynnol eu cadw'n gyson i ganiatáu i ni wneud cymariaethau hydredol. Roedd yr arolwg yn agored i gyfranogwyr am saith wythnos rhwng 18 Ionawr ac 8 Mawrth 2023. Roedd y cyfnod casglu data hwn ddwy flynedd ar ôl y cyfnod diwethaf o gau lleoliadau yng Nghymru (Chwefror 2021). Fel gyda'r arolwg cychwynnol, cafodd unigolion eu recriwtio trwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd 352 o ymatebion gan y boblogaeth darged. Mae Tabl 1 yn dangos y math o leoliad a rôl yr ymatebwyr o'r ail arolwg. Mae hyn yn dangos bod cyfradd ymatebion yn ôl demograffeg allweddol yn debyg o gymharu â'r arolwg cychwynnol. Er nad ydym yn gwybod a oedd yr un cyfranogwyr wedi ymateb yng ngham 1 a cham 2, mae'r cyfrannau tebyg o ran demograffeg ymatebion yn caniatáu i ni wneud cymariaethau rhwng y ddau arolwg.

**Tabl 1 – Demograffeg ymatebwyr yr arolwg**

| Newidyn | Categori | Arolwg cam 1 | | Arolwg cam 2 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | n | % | n | % |
| Lleoliad | Meithrinfa breifat | 69 | 19.6 | 82 | 21.8 |
| | Cyn ysgol | 76 | 21.6 | 73 | 19.4 |
| | Meithrinfa ysgol | 1 | .3 | 11 | 2.9 |
| | Ysgol Gynradd | 32 | 9.1 | 66 | 17.6 |
| | Gofal cofleidiol (clybiau brecwast / ar ôl ysgol) | 34 | 9.7 | 21 | 5.6 |
| | Clybiau gwyliau | 2 | .6 | 6 | 1.6 |
| | Gwarchodwr plant | 124 | 35.2 | 80 | 21.3 |
| | Arall | 14 | 4.0 | 37 | 9.8 |
| Role | Rheolwr lleoliad / Pennaeth | 155 | 41.2 | 187 | 53.3 |
| | Athro/arweinydd y blynyddoedd cynnar | 39 | 10.4 | 36 | 10.3 |
| | Athro/ arweinydd ystafell ddosbarth | 29 | 7.7 | 11 | 3.1 |
| | Gweithiwr / ymarferydd gofal plant | 66 | 17.6 | 93 | 26.5 |
| | Nyrs feithrin | 13 | 3.5 | 3 | .9 |
| | Cynorthwyydd addysgu | 19 | 5.1 | 1 | .3 |
| | Arall | 55 | 16.6 | 20 | 5.7 |

### *Cam 3: Grwpiau Ffocws, Mai 2023*

Cynhaliwyd cam olaf y broses casglu data trwy grwpiau ffocws gydag ymarferwyr ECEC. Ar ddiwedd yr ail arolwg, gofynnwyd i gyfranogwyr adael eu cyfeiriad e-bost os oeddent yn dymuno cymryd rhan mewn cyfweliad grŵp ffocws dilynol. Gwahoddwyd yr holl gyfranogwyr a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y grŵp cyfranogwyr targed i gymryd rhan mewn grŵp ffocws ar-lein. Roedd cwestiynau'r grŵp ffocws yn dilyn strwythur tebyg i gwestiynau'r arolwg a'u nod oedd ymhelaethu ar ganlyniadau'r arolwg meintiol. Cynhaliwyd cyfanswm o bedwar grŵp ffocws gyda deuddeg ymarferydd ECEC o amrywiaeth o leoliadau ECEC gan

gynnwys ysgolion (3), gwarchodwyr plant (2), meithrinfeydd preifat (4), a lleoliadau Dechrau'n Deg[1] (3). Cynhaliwyd grwpiau ffocws trwy Zoom, ac fe wnaeth y cyfranogwyr roi cydsyniad ysgrifenedig ar sail gwybodaeth a gofynnwyd iddynt roi caniatâd llafar i recordio'r cyfweliadau.

### *Dadansoddiad*

Data Meintiol: Yn dilyn dadansoddiad un newidyn cychwynnol o'r cwestiynau ym mhob arolwg, cynhaliwyd profion dadansoddi deunewidyn ac amlnewidyn (profion t, chi-sgwâr ($X^2$) ac ANOVAs) i benderfynu a oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau arolwg.

Data ansoddol: Cafodd recordiad sain ei wneud o bob grŵp ffocws a chafodd y recordiad sain ei drawsgrifio gair am air. Defnyddiwyd dull dadansoddi thematig (Braun a Clarke, 2006; 2022). Cafodd proses anwythol ei defnyddio ar gyfer codio: datblygwyd codau cychwynnol yn annibynnol gan ddau aelod o'r tîm ymchwil yn seiliedig ar batrymau ailadroddol yn y data. Yna cyfarfu'r ymchwilwyr er mwyn cymharu a mireinio'r strwythur codio, gan gytuno ar set derfynol o themâu trwy drafodaeth. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod themâu yn cael eu llunio gan yr ymchwilwyr trwy ddehongli, yn hytrach na 'dod i'r amlwg' o'r data.

## Canlyniadau

### *Canlyniadau Meintiol*

Mae'r adrannau isod yn amlinellu canfyddiadau'r ddau arolwg meintiol gydag ymarferwyr ECEC.

1 Mae lleoliadau Dechrau'n Deg yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac maent ar gael mewn ardaloedd difreintiedig sy'n cynnig gofal plant ochr yn ochr â chymorth cymunedol ehangach (Llywodraeth Cymru, 2023).

### *Ymatebion i'r pandemig*

Gofynnwyd i gyfranogwyr yn y ddau arolwg 'Ydych chi wedi newid y mannau a'r lleoedd lle mae plant yn chwarae o ganlyniad i COVID-19?' Canfuwyd cysylltiad arwyddocaol, cymedrol rhwng y ffaith a oedd y lleoliad wedi newid y mannau a'r lleoedd ac amser yr arolwg: $\chi^2(1) = 112.61$, $p<.001$, Cramer's V= 0.44. Dywedodd y mwyafrif o ymarferwyr (79.8 y cant) eu bod wedi newid y mannau a'r lleoedd yn Amser 1, o'i gymharu â 36.3 y cant yn Amser 2. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o newidiadau wedi'u gwneud yn 2020 i fannau a lleoedd yr oedd plant yn chwarae ynddynt o gymharu â 2022.

### *Hyfywedd lleoliadau*

Atebodd cyfranogwyr y cwestiwn 'Ers dechrau'r pandemig COVID-19, a yw eich lleoliad wedi cael trafferth parhau i fod yn hyfyw oherwydd effaith COVID-19?' yn y ddau arolwg. Dywedodd dros draean (39.9 y cant) o'r cyfranogwyr eu bod yn cael trafferth aros yn hyfyw yn ystod Amser 1t, ac nid oedd hyn yn wahanol iawn i'r 33.5 y cant a ddywedodd eu bod wedi cael trafferth aros yn hyfyw yn Amser 2: $\chi^2(1) = 2.26$, $p=0.14$.

### *Llesiant staff a phlant*

Yn Amser 1, gofynnwyd i gyfranogwyr am effaith y newidiadau a achoswyd gan COVID-19 ar lesiant corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a staff yn y lleoliad (cwestiwn 1 yn Nhabl 2 a 3). Yn Amser 2, gofynnwyd dau gwestiwn tebyg i gyfranogwyr: 'O edrych yn ôl, pa effaith a gafodd y newidiadau hyn ar lesiant plant / staff *adeg y pandemig*' (cwestiwn 2 yn Nhabl 2 a 3) ac yna 'Wrth edrych yn ôl, ydy'r newidiadau hyn wedi cael *effeithiau tymor hwy* ar lesiant plant / staff' (cwestiwn 3 yn Nhabl 2 a 3). Rhannwyd y cwestiynau hyn hefyd yn ôl llesiant corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Ar gyfer pob un o'r tri chwestiwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr raddio eu heffaith ganfyddedig ar raddfa o 0 'effaith negyddol' i 10 'effaith gadarnhaol' gyda 5 wedi'i labelu fel 'dim effaith'. Mae Tabl 2 yn dangos y cymedr (*M*) a'r gwyriad safonol (*s.d.*) ar gyfer pob cwestiwn ar bob pwynt amser. Ar gyfartaledd ar draws y tri chwestiwn, roedd cyfranogwyr o'r farn bod llesiant corfforol plant (*M*=5.38, *s.d.*= 2.42) a staff (*M*=4.75, *s.d.*=2.26) wedi gweld y lleiaf o effaith negyddol

tra bod llesiant cymdeithasol plant (*M*=4.49, *s.d.*=2.72) a staff (*M*=3.91, *s.d.*=2.36) wedi gweld y mwyaf o effaith negyddol

Dangosodd dadansoddiad cychwynnol nad oedd y newidynnau hyn wedi'u dosbarthu fel arfer (Shapiro-Wilk <0.05) ac oherwydd natur drefnol y newidyn, defnyddiwyd profion H Kruskal-Wallis i bennu a oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng pob cwestiwn. Mae Tabl 3 yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol wedi'u canfod rhwng y graddau cymedrig ar gyfer pob cwestiwn ym mhob maes llesiant i blant a staff. Ar gyfer pob cwestiwn, dangosodd profion post hoc gan ddefnyddio cymariaethau pâr na chanfuwyd gwahaniaethau sylweddol yn y graddau cymedrig rhwng cwestiwn 2 (ystyried effaith adeg y pandemig) a chwestiwn 3 (ystyried effaith hirdymor). Fodd bynnag, canfuwyd gwahaniaethau sylweddol rhwng ymatebion yn y cwestiynau ar gyfer Amser 1 (yr effaith ar y pryd) a chwestiynau ar gyfer Amser 2 (ystyried yr effaith ar y pryd a'r effaith tymor hwy). Roedd hyn gyson arwyddocaol ar draws pob cwestiwn a maes yn ymwneud â llesiant. Dangosodd hyn fod ymatebwyr yn Amser 2 (2023) yn gyson yn fwy tebygol o ddweud bod effaith y pandemig (ar y pryd a'r effaith tymor hwy) yn fwy negyddol na'r rhai a gwblhaodd yr arolwg yn Amser 1.

### *Data ansoddol*

Mae'r data ansoddol yn cael ei gyflwyno o amgylch pedair thema allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y dadansoddiad o ddata'r grwpiau ffocws; 1) y sector a anghofiwyd; 2) gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd; 3) effaith ganfyddedig COVID-19 ar ddatblygiad plant a; 4) newidiadau tymor hwy fel ymateb i'r pandemig. Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno data ar gyfer pob thema gan ddefnyddio dyfyniadau o'r arolwg a chyfranogwyr grwpiau ffocws.

### *'Y Sector a Anghofiwyd'*

Yn arolwg Amser 1, disgrifiodd cyfranogwr y sector ECEC fel 'y sector a anghofiwyd'. Mae hon yn thema sy'n rhedeg trwy ddata'r arolwg a'r grwpiau ffocws. Roedd pob un o'r pedwar grŵp ffocws yn cynnwys sgyrsiau am deimlo wedi'u hesgeuluso, eu hanghofio neu am fod â phryderon am lesiant staff yn ystod y pandemig. Mewn dau o'r pedwar grŵp ffocws, yn arwyddocaol, gwnaeth ymarferwyr sylwadau am eu teimladau o beidio â chael eu gwerthfawrogi'n ddigonol

**Tabl 2: Effaith ar feysydd llesiant a adroddwyd yn arolwg Amser 1 ac Amser 2**

| Grŵp | Maes llesiant | Arolwg | Cwestiwn | Cymedr* | *s.d.* |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant | Corfforol | 1) Tachwedd – Rhagfyr 2020 | 1 | 6.54 | 2.66 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 2 | 4.80 | 2.14 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 3 | 4.57 | 1.78 |
| | | Cyfunol | | 5.39 | 2.43 |
| | Emosiynol | 1) Tachwedd – Rhagfyr 2020 | 1 | 5.78 | 2.78 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 2 | 3.99 | 2.34 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 3 | 4.02 | 1.97 |
| | | Cyfunol | | 4.67 | 2.55 |
| | Cymdeithasol | 1) Tachwedd – Rhagfyr 2020 | 1 | 5.60 | 3.00 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 2 | 3.78 | 2.49 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 3 | 3.84 | 2.09 |
| | | Cyfunol | | 4.49 | 2.72 |
| Staff | Corfforol | 1) Tachwedd – Rhagfyr 2020 | 1 | 5.60 | 2.50 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 2 | 3.97 | 2.01 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 3 | 4.31 | 1.64 |
| | | Cyfunol | | 4.76 | 2.26 |
| | Emosiynol | 1) Tachwedd – Rhagfyr 2020 | 1 | 4.62 | 2.64 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 2 | 3.19 | 1.82 |
| | | 2) Jan – March 2023 | 3 | 3.87 | 1.70 |
| | | Cyfunol | | 4.01 | 2.27 |
| | Cymdeithasol | 1) Tachwedd – Rhagfyr 2020 | 1 | 4.35 | 2.81 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 2 | 3.20 | 1.91 |
| | | 2) Ionawr – Mawrth 2023 | 3 | 3.95 | 1.77 |
| | | Cyfunol | | 3.91 | 2.36 |

*0 – effaith negyddol, 5 – dim effaith, 10 – effaith gadarnhaol

a'u pryderon am sefydlogrwydd gweithlu'r blynyddoedd cynnar. Roedd hyn yn gysylltiedig â phryder ynglŷn â hyfywedd lleoliadau ECEC, gydag un rheolwr ECEC yn awgrymu 'Cafodd tri aelod staff eu diswyddo gen i [...] doedd hynny ddim yn benderfyniad hawdd i'w wneud [...] rydyn ni wedi cael trosiant staff o 95 y cant'

**Tabl 3: Prawf H Kruskal-Wallis o'r gwahaniaeth rhwng arolygon**

| **Grŵp** | **Maes llesiant** | **Cwestiwn*** | **Graddau Cymedr** | **H Kruskal-Wallis** | ***p*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant | Corfforol | 1 | 503.38 | | |
| | | 2 | 342.58 | | |
| | | 3 | 320.82 | 111.85 | <0.001 |
| | Emosiynol | 1 | 483.95 | | |
| | | 2 | 336.27 | | |
| | | 3 | 340.16 | 77.56 | <0.001 |
| | Cymdeithasol | 1 | 472.39 | | |
| | | 2 | 332.45 | | |
| | | 3 | 342.74 | 67.31 | <0.001 |
| Staff | Corfforol | 1 | 456.98 | | |
| | | 2 | 307.99 | | |
| | | 3 | 349.03 | 69.62 | <0.001 |
| | Emosiynol | 1 | 435.63 | | |
| | | 2 | 307 | | |
| | | 3 | 391.24 | 45.05 | <0.001 |
| | Cymdeithasol | 1 | 410.34 | | |
| | | 2 | 319.66 | | |
| | | 3 | 406.72 | 25.68 | <0.001 |

(Rheolwr Lleoliad Gofal Dydd). Awgrymodd y rheolwr hwn, ar ôl pandemig COVID-19 fod 'y rhai a oedd yno, yn teimlo fel nad oedd ein sector yn cael ei gydnabod, fel nad oedd ein swydd yn bwysig neu mor bwysig â swyddi eraill' (Rheolwr Lleoliad Gofal Dydd). Ar ben hynny, dywedodd ymarferwyr eu bod yn teimlo bod y sector yn ei gyfanrwydd yn cael ei anghofio ac nad oedd yn cael ei werthfawrogi'n ddigonol.

> Roedden nhw'n teimlo nad oedden nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol fel gweithlu. Rwyf bob amser wedi ceisio gwneud pethau yn y lleoliad i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol a'u cefnogi, ond trwy gydol COVID, y gweithwyr allweddol a'r maes iechyd a gofal oedd yn hawlio'r sylw i gyd. Ar adegau pwysig,

> dydyn ni ddim yn perthyn i unrhyw gategori. Dydyn ni ddim yn perthyn i'r byd addysg, a dydyn ni ddim yn perthyn i'r maes gofal, ond wnawn nhw ddim cydnabod gofal plant fel categori. (Rheolwr Lleoliad Gofal Dydd)

Yr hyn sy'n amlwg yn y thema hon oedd y teimlad bod angen cydnabyddiaeth o'u gwaith ar staff ECEC yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny, 'Rydyn ni'n ôl ar waelod y rhestr unwaith eto' (Rheolwr Lleoliad Gofal Dydd). Codwyd materion yn ymwneud â chyflog ac amodau yn sector y blynyddoedd cynnar, o'i gymharu â sectorau eraill:

> Dyw rhywun fel fi ddim yn cael tâl salwch oherwydd fy mod i'n hunangyflogedig, felly does gen i ddim hawl i hynny. Mae'n fater o ddiffyg cefnogaeth, diffyg cymorth. (Gwarchodwr Plant)

### *Datblygiad Plant*

Thema gyson oedd effaith COVID-19 ar ddatblygiad plant. Roedd y mwyafrif o ymarferwyr yn teimlo mai'r grŵp yr effeithiwyd arno fwyaf oedd y plant a aned yn ystod cyfnodau cyfyngiadau symud COVID-19 neu ychydig cyn hynny: 'y babanod pan oedd COVID ar ei anterth, oherwydd doedden nhw ddim yn mynd i'r grwpiau rhieni a phethau felly' (Rheolwr Dechrau'n Deg) tra bod un arall yn teimlo 'mewn gwirionedd roedd yr effaith ar y plant a oedd gyda ni [ECEC] yn ystod y pandemig yn eithaf bach' (Rheolwr Lleoliad Cyn Ysgol).

Ar ben hynny, myfyriodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws ar effaith COVID-19 ar feysydd penodol o ddatblygiad plant, yn benodol datblygiad lleferydd ac iaith, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a phlant ag ADY, fel y mynegodd un cyfranogwr:

> O ran plant dros ddwy oed sy'n dod i mewn nawr a gafodd eu geni ar ôl y pandemig, ond pan doedd pethau ddim wedi mynd yn ôl i normal, ychydig iawn o iaith lafar sydd gan 90% o'r rhai sy'n dechrau gyda ni. Dydyn nhw ddim ar lefel dwy oed o gwbl (Rheolwr Lleoliad Cyn Ysgol).

Trafododd cyfranogwyr y grwpiau ffocws y rheswm am hyn oherwydd 'yn amlwg doedden nhw ddim yn gallu mynd i grwpiau rhieni a phlant bach, dim ond eu rhieni neu deulu agos gartref y maen nhw wedi treulio amser gyda nhw' (Rheolwr Dechrau'n Deg).

Awgrymodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws fod plant bach wedi cael eu heffeithio gan y pandemig trwy golli allan ar ryngweithiadau cymdeithasol a bod hyn wedi effeithio ar eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol:

> Eu sgiliau cymdeithasol, felly dydyn nhw ddim wedi cymysgu yn yr un modd. Roedd un neu ddau o deuluoedd a oedd yn ymwybodol iawn o hyn, a dywedodd y fam, 'Dydw i ddim wedi gallu mynd ag ef i unman, dyw e ddim yn gwybod sut i gymysgu, dyw e ddim yn gwybod sut i rannu, dyw e ddim yn gwybod sut i aros oherwydd dwi yno bob amser'. Mae llawer mwy o ofynion ar amser oedolion. (Rheolwr Lleoliad Cyn Ysgol)

Ar ben hynny, nodwyd hefyd bod ymarferwyr yn teimlo bod plant yn ymgyflwyno mewn lleoliadau ECEC gyda mwy o ADY nag o'r blaen. Esboniwyd hyn gan y materion a godwyd yn flaenorol am ddiffyg cefnogaeth allanol:

> Mae'r rhan fwyaf o'r plant bellach yn dod i mewn gydag anghenion ychwanegol (...) maen nhw'n dod i mewn ac yn dechrau yma, a does neb erioed wedi eu gweld nhw, dim ymwelydd iechyd, roedd popeth dros y ffôn, felly maen nhw'n dod i mewn gyda'r holl anghenion hyn, a dydyn nhw erioed wedi gweld gweithiwr proffesiynol. (Rheolwr Lleoliad Gofal Dydd)
>
> Rydw i wedi bod yn warchodwr plant ers saith mlynedd, ac eleni yw'r flwyddyn gyntaf i bob un o'm plant fod ag anghenion dysgu ychwanegol. (Gwarchodwr plant)

### *Gwasanaethau Cymorth i Blant a Theuluoedd*

Roedd y drydedd thema yn ymwneud â'r cymorth cyfyngedig a oedd ar gael gan wasanaethau cymorth y tu allan i'r sector ECEC a oedd yn destun trafod amlwg ym mhob grŵp ffocws. Adroddodd cyfranogwyr newid mewn lleoliadau addysg yn darparu cymorth lles ychwanegol o'i gymharu â'r sefyllfa flaenorol, gan deimlo bod hyn wedi'i waethygu gan y pandemig. Fel y gwelir gyda'r enghraifft isod gan un ymarferydd:

> Rwy'n credu o ran rolau staff, boed yn yr ysgol neu yn y lleoliadau gofal plant, mae'r ochr fugeiliol wedi cynyddu ddengwaith. Nhw yw'r cymorth i'r teulu cyfan. Rydyn ni'n darparu ychydig o bopeth nawr oherwydd lefel angen y teuluoedd. (Rheolwr Dechrau'n Deg)

Awgrymodd ymarferwyr fod hyn oherwydd absenoldeb gwasanaethau eraill, oherwydd rhestrau aros hirach, a bod staff ECEC yn weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n cael cyswllt dyddiol â theuluoedd.

> Fe wnaeth pobl ddechrau ymddiried mwy ynddon ni. Oherwydd mai ni oedd yr unig rai roedden nhw'n eu gweld. Maen nhw'n dod atom ni am gymorth ac ati. Mae'n beth da oherwydd fe wnaethon ni adeiladu cysylltiadau cryfach. Rwy'n agos iawn at lawer o'r rhieni, ac maen nhw'n dod ata i gyda'u problemau. Ni oedd yr unig rai yno. (Rheolwr Lleoliad Gofal Dydd)

Nodwyd diffyg cefnogaeth gan gyfranogwyr gan 'ymwelwyr iechyd', 'meddygon', 'therapyddion lleferydd ac iaith' ac o ran 'asesiadau a chymorth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol'. O'i holi pa fath o gefnogaeth oedd ei angen ar blant oherwydd y pandemig, dywedodd un ymarferydd:

> Mwy o feddygon, mwy o therapyddion lleferydd ac iaith er mwyn lleihau'r rhestrau aros a chael yr ymarferwyr perthnasol i weld y plant, oherwydd bydd hynny'n cael sgil-effaith i'n helpu ni yn ogystal â buddsoddiad mewn magu plant. [Mae yna] lwyth enfawr o achosion gan y gweithwyr proffesiynol allanol. Felly, rydyn ni'n cael trafferth cael unrhyw gefnogaeth oni bai eu bod yn lefel uchel a bod ganddyn nhw gynlluniau datblygu unigol ar waith, felly rydyn ni'n cael trafferth wirioneddol cael unrhyw gefnogaeth i unrhyw blant. (Rheolwr Dechrau'n Deg)

Roedd lleferydd ac iaith yn faes yr oedd ymarferwyr yn teimlo bod plant angen cymorth ychwanegol ar ei gyfer: 'Mae'r rhestr lleferydd ac iaith yn ein hardal ni yn flwyddyn i ddeunaw mis, felly oni bai am COVID, byddai'r plant hyn yn cael eu gweld yn llawer cynt' (Gwarchodwr Plant). Codwyd materion tebyg ynglŷn â mynediad at gymorth i blant ag ADY: 'Mae gennym ni blant ddwy flynedd yn ddiweddarach nad ydyn nhw byth wedi cael diagnosis o Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig lle bydden nhw wedi cael diagnosis mewn llai na blwyddyn' (Rheolwr Lleoliad Cyn Ysgol).

Awgrymodd ymarferwyr fod y diffyg grwpiau babanod, grwpiau plant bach wedi cael effaith fawr ar gefnogaeth i rieni (yn enwedig mamau) ac felly cynyddodd problemau iechyd meddwl rhieni. Roedd ymarferwyr yn teimlo, heb gyfoedion i siarad â nhw a mynegi pryderon am ddatblygiad eu plentyn, bod rhieni yn teimlo'n fwy ynysig ac yn bryderus am eu plant:

